

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Stryd y Gwynt, Rhydaman, Sir
Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2018

The A483 Trunk Road (Wind
Street, Ammanford,
Carmarthenshire) (Temporary
Traffic Prohibitions & Restriction)
Order 2018

Gwnaed 8 Hydref 2018

Made 8 October 2018

Yn dod i rym 15 Hydref 2018

Coming into force 15 October 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Stryd y Gwynt, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 15 Hydref 2018.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Wind Street, Ammanford, Carmarthenshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restriction) Order 2018 and it comes into force on 15 October 2018.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weiniogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 15 Hydref 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion yn Rhydaman, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Stryd Fawr/Stryd y Coleg hyd at ei chyffordd â Heol Las;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester Trunk Road at Ammanford, Carmarthenshire that extends from its junction with High Street/College Street to its junction with Heol Las;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 15 October 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions and Restriction

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwyso

8.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiad yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

8 Hydref 2018

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

7. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road during such times as the restriction in article 6 is in operation.

Application

8.—(1) The prohibitions and restriction in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspension

9. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 6 is in operation.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

8 October 2018

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

**(STRYD Y GWYNT, RHYDAMAN, SIR
GAERFYRDDIN) (GWAHARDDIADAU A
CHYFYNGIAD TRAFFIG DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Rhydaman, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Stryd Fawr/Stryd y Coleg hyd at ei chyffordd â Heol Las.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A483 tua'r de-orllewin i Bont Abraham, ar yr A48 tua'r gogledd i Gylchfan Cross Hands ac ar yr A476 tua'r gogledd-ddwyrain i Ffairfach i ymuno â'r A483 tua'r de: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Cynhelir mynediad ar y cyfan i feicwyr a cherddwyr ond ar yr adegau pan nad yw hyn yn bosibl fe'u cynghorir i ddilyn llwybrau dargyfeiriol lleol, y codir arwyddion yn eu cylch.

ii. Gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar gyfer gwaith confoi a gwahardd goddiweddyd ar yr adegau hyn ar y darn o'r A483 a ddisgrifir uchod.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym ar 15 Hydref 2018 ac y byddant yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 20 Medi 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir y bydd y gwaith yn golygu cau'r ffordd yn llawn a gwaith confoi ond mai dim ond ar tua 7 achlysur y bydd angen cau'r ffordd dros nos.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros

**THE A483 TRUNK ROAD (WIND STREET,
AMMANFORD, CARMARTHENSHIRE)
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS &
RESTRICTION) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Ammanford, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends from its junction with High Street/College Street to its junction with Heol Las.

The alternative route for northbound vehicles is via the south-westbound A483 to Pont Abraham, northbound A48 to Cross Hands Roundabout and north-eastbound A476 to Ffairfach to join the southbound A483: vice versa for southbound.

Access will mostly be maintained for cyclists and pedestrians but on occasions when this is not possible they will be advised to follow local diversion routes, which will be signed.

ii. Impose a 10 mph speed limit for convoy working and prohibit overtaking during these times on the length of the A483 described above.

It is expected that the temporary prohibitions and restriction, which will be signed accordingly, will come into force on 15 October 2018 and operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) until 20 September 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed. There are expected to be a mixture of full closures and convoy working during the works but it is anticipated that there will only be approximately 7 overnight closures.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local

dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government